CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD A STAR:
Cofnodion Cyfarfod Blynyddol
7fed Mehefin 2023 yn Y Ganolfan, Penmynydd

YN BRESENNOL: Cyng., Dewi Gwyn (Cadeirydd), D.Idriswyn Roberts, Llinos Roberts, Heulwen Owen. Cynghorydd Sirol : Sonia Williams, Robin Williams Clerc: Gillian Morris	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Janet Jones, Selwyn Hughes, Nia Jones.
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 05/04/2023. Fe'i derbyniwyd fel rhai cywir. DIR yn cynnig, HO yn eilio.
4.	**ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**
	Llinos Roberts yn cynnig Dewi Gwyn fel Cadeirydd a Heulwen Owen yn eilio. Llinos Roberts yn cynnig Nia Jones fel Is-Gadeirydd, Dafydd Idriswyn yn eilio.
5.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
5.1	Grant Ymddiriedolaeth Elusennol Môn – Cais wedi bod yn llwyddiannus. LLR yn diolch i DG am ei waith caled. DG wedi cysylltu gyda Carl o Playquest i drefnu cyfarfod ar y safle.
5.2	Cyrb - DG wedi cysylltu gyda CSYM, hapus i ni drefnu contractwr i gwblhau y gwaith o ollwng y cyrb.
5.3	Adolygu prif ddogfennau'r Cyngor a'r Cynllun Hyfforddiant - DG yn hysbysu bod y prawf iechyd wedi ei gwblhau.
6.0	**Materion ariannol**
6.1	Cafwyd diweddariad gan y clerc ar y sefyllfa ariannol. Arian yn y banc, taliad cyflog, CSYM.
6.2	HMRC/PAYE - Clerc yn disgwyl ymateb ynglŷn â'r apêl ar gyfer y taliadau cosb.
6.3	Datganiad Blynyddol 2022/2023 - Pawb yn cadarnhau eu bod yn hapus gyda'r datganiad blynyddol.
6.4	Penodi/Ail-benodi Archwilwyr Mewnol - Clerc yn cynnig defnyddio Bleddyn Rhys o CG unwaith eto, pawb yn cytuno.
7.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
	Dim
8.0	**Ceisiadau Cynllunio**
	Dim
9.0	**Gohebiaeth Ychwanegol**
9.1	Cynllun Gwylio cyflymder Cymunedol - Ffurflenni yn cael eu dosbarthu er mwyn casglu mwy o enwau.
10.0	**MATERION ERAILL**
10.1	**Hyfforddiant Defib -** Clerc i gysylltu gydag Anne Roberts i bennu dyddiad erbyn mis Medi 2023.

10.2	**Blychau Bagiau Baw Cŵn -** Wedi cael eu gosod mewn dau safle yn Star.
10.3	**Hyfforddiant -** DG wedi derbyn e-bost gan Mel ab Owain ynglŷn â'n cwyn am ddiffyg cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg gan Un Llais Cymru. DG yn gofyn caniatâd gan y cyngor i ymateb. Pawb yn cytuno.
10.4	**Gwair -** Os nad oes neb wedi gofyn caniatâd gyda'r gwair, Clerc i gysylltu gyda Rhys o CSYM - 07747118445.
11.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**

Llofnod **Dyddiad**